

## Gwasanaethau VAWDASV – Rhestr Wirio o Ystyriaethau ar gyfer COVID-19

Bwriedir i'r rhestr wirio hon helpu gwasanaethau i gynllunio sut y byddant yn parhau â'u gweithrediadau ac yn sicrhau eu bod wedi ystyried pob risg a her bosibl fel y gallant gymryd camau i'w lliniaru lle y bo'n bosibl.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi fwrw golwg dros y rhestr wirio, neu rannau ohoni, ar adegau penodol neu bob tro y caiff cyfyngiadau'r coronafeirws eu hadolygu.

Nid yw'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ichi gwblhau'r rhestr wirio hon – bwriedir iddi gael ei defnyddio fel adnodd mewnol mewn sefydliadau yn unig.

### Cyffredinol

Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
<i>Enghraifft: Os yw'n gymwys, beth yw cyngor eich corff achredu?</i>	<i>e.e. mae wedi ein cynghori i weithio gartref lle y bo'n bosibl</i>	<i>e.e. Byddwn yn rhoi gwybod i'r staff pryd y dylent weithio gartref a phryd y dylent ddod i mewn i'r swyddfa. Byddwn yn darparu cyfarpar priodol i'r staff. Byddwn yn datblygu polisi llesiant ar gyfer gweithio gartref.</i>
<i>Enghraifft: Sut mae newidiadau i'ch gwasanaeth yn cydymffurfio â Dyletswydd Ddiogelu Cymru?</i>	<i>e.e. Efallai y bydd dryswch o ran y ddyletswydd yn sgil y ffyrdd newydd o weithio</i>	<i>e.e. Bydd y staff yn cael eu hatgoffa o'r ddyletswydd hon drwy e-bost a rhoddir cyngor penodol yn ymwneud â ffyrdd newydd o weithio.</i>
Ydych chi wedi darllen ac ystyried holl ganllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru?		
Os yw'n gymwys, beth yw cyngor eich corff achredu?		
Beth yw'r broses ar gyfer penderfynu i newid agwedd ar eich gwasanaeth er mwyn ymateb i COVID-19? Pwy sy'n penderfynu, sut y caiff y risgiau eu cyfrif a ble y caiff hyn ei gofnodi?		
Pa sefydliadau ac unigolion sydd angen gwybod bod eich gwasanaethau wedi newid ac a fydd angen unrhyw wybodaeth arall arnynt?		
Sut mae newidiadau i'ch gwasanaeth yn cydymffurfio â dyletswydd Cymru i ddiogelu?		
Sut ydych chi'n sicrhau bod atgyfeiriadau diogelu yn cael eu gwneud o hyd?		

Sut mae hyn wedi effeithio ar eich prosesau asesu risg?		
Sut y gallwch chi sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth?		
Sut y bydd newidiadau i'ch gwasanaeth yn effeithio ar y GDPR a chyfrinachedd?		
Ydych chi'n rhagweld y bydd cynnydd yn y galw? Os felly, pa drefniadau i lacio'r cyfyngiadau allai achosi hyn?		
Sut y gallai'r pandemig effeithio ar ffrydiau cyllido?		
Sut y gallwch chi sicrhau bod dulliau gweithredu yn hyblyg?		
<b>Y staff a'r gweithle</b>		
Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
Pa weithgareddau fydd yn gofyn i aelodau o staff weithio gartref, yn y swyddfa neu mewn lleoliadau eraill?		
Sut ydych chi wedi ystyried amgylchiadau unigol pob aelod o staff?		
Pa gyfarpar fydd ei angen ar staff os byddant yn gweithio gartref yn yr hirdymor?		
Sut mae ffiniau'n cael eu cynnal rhwng staff a defnyddwyr gwasanaethau pan fydd staff yn gweithio gartref?		
Sut y gall staff gynnal cyfrinachedd pan fyddant yn gweithio gartref?		
Os bydd staff yn dychwelyd i'r gweithle, pa addasiadau fydd eu hangen i'w galluogi i gadw pellter corfforol?		
Faint o bobl all fod ym mhob ystafell ar yr un pryd?		

A oes angen addasu gweithdrefnau glanhau ac, os felly, sut?		
Pa arwynebau caled y gallai nifer o bobl eu cyffwrdd a sut y gellir lliniaru hyn? Mae enghreifftiau'n cynnwys dolenni drysau, arwynebedd cownteri, mygiau, gwydrau, pinnau ysgrifennu a phensiliau.		
A fydd angen cyfarpar diogelu personol ar staff ar gyfer unrhyw weithgareddau?		
Pa gamau y gellir eu cymryd er mwyn lleihau'r risg o drawma eilaidd i staff?		
Sut y byddai'r gwasanaeth yn ymateb i aelodau o staff a all fod yn ddioddefwyr VAWDASV eu hunain?		

### **Gwaith wyneb yn wyneb**

Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
A ellir ailddechrau gwaith wyneb yn wyneb yn ddiogel ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru?		
Ble bydd gwaith wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal?		
Ar ba adegau y gallai defnyddwyr gwasanaethau a staff ddod i gysylltiad agos? Ystyriwch fynedfeydd, allanfeydd, ystafelloedd aros a'r dderbynfa.		
Sut y gellir darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sydd mewn mwy o berygl o COVID-19 a'r rhai sy'n gwarchod eu hunain?		
Os bydd lleoliad newydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer apwyntiadau, sut y gellir cynnal cyfrinachedd?		

### **Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau o bell**

Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
Sut y darperir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau nad oes ganddynt fynediad i rai mathau o dechnoleg o bosibl neu nad ydynt yn		

teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio?		
Sut mae'r llwyfan ar-lein rydych yn ei ddefnyddio yn effeithio ar ddiogelu, y GDPR a phrosesau casglu data? A oes unrhyw risgiau posibl eraill i'w hystyried?		
Beth yw eich proses ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau na allant ddod o hyd i fan preifat yn eu cartrefi?		
<b>Ymweliadau â'r cartref</b>		
Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
Sut y gellir darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sydd mewn mwy o berygl o COVID-19 a'r rhai sy'n gwarchod eu hunain?		
Beth yw eich proses ar gyfer cadarnhau bod ymweliad â chartref yn ddiogel ar gyfer yr aelod o staff a'r defnyddiwr gwasanaeth?		
<b>Cymorth i blant a phobl ifanc</b>		
Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
Sut mae hawliau'r plentyn wedi cael eu hystyried yn eich dull gweithredu?		
<b>Gwasanaethau i Gyflawnwyr</b>		
Ystyriaeth	Ymateb	Camau gweithredu
A yw Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais VAWDASV Llywodraeth Cymru wedi cael eu hystyried? Sut mae'r sefyllfa wedi effeithio ar gydymffurfiaeth â'r Safonau?		
Os caiff rhaglenni neu ymyriadau eu hatal neu eu gohirio, sut y bydd lefel risg cyfranogwyr yn cael ei monitro?		
Os caiff rhaglenni neu ymyriadau eu hatal neu eu gohirio, sut y bydd y defnyddiwr gwasanaeth a'i bartner neu gyn-bartner yn cael eu cefnogi?		

Os caiff rhaglenni neu ymyriadau eu hatal neu eu gohirio, pa bartneriaid a gwasanaethau cysylltiedig y bydd angen rhoi gwybod iddynt?		
Os bydd gwaith gyda defnyddiwr gwasanaeth yn parhau dros y ffôn neu ar sgwrs fideo, a oes gan y defnyddiwr gwasanaeth leoliad priodol i gymryd rhan?		
Beth yw'r broses ar gyfer atgyfeiriadau newydd?		